**CYNGOR CYMUNED BRITHDIR A LLANFACHRETH**

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Mawrth 19, 2019 am 7:30 o'r gloch.

**AGENDA**

**1. Croeso'r Cadeirydd**

**2. Ymddiheuriadau:**

**3. Datgan diddordeb.**

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 19, 2019**

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 19, 2019**

Eitem 6.ff. Llythyr (20/2/2019) oddi wrth Mr Peter Jones yn rhoi gwybod ei fod yn ddigalon a siomedig bod ei gais am bin halen wedi gael ei wrthod. Gwel y Garn, Llanfachreth (LL40 2EH).

Eitem 8.c. O Cyfriflen Banc mis Chwefror mae camgymeriad wedi ei wneud gyda'r taliad aelodaeth i Un Llais Cymru. Mae'r taliad i fod yn £132 ac ddim £130. Mae angen taliad ychwanegol o £2.

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Eiseddfod Genedlaethol yr Urdd. Maent angen cymorth ariannol.

b. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Gwasanaeth Eiddo yn ymwneud ag Ysgol Machreth a'r tir cysylltiedig sef y maes parcio a'r cae chwarae. Amgáu mae map yn dangos y lleoliad.

Maent angen gadarnhad dymuniad y Cyngor Cymuned i Gyngor Gwynedd drosglwyddo'r maes chwarae gyferbyn a'r ysgol a'r cae chwarae sydd nesaf at yr ysgol i'r Cyngor Cymuned. Hefyd maent angen manylion y cwmni cyfreithwyr fydd yn gweithredu ar ran y Cyngor Cymuned mewn cyswllt a'r trosglwyddiadau hyn.

Maent am drosglwyddo'r maes parcio i'r Cyngor Cymuned am swm nominal o £1, yn amodol ar gynnwys cymal "Overage" fydd yn galluogi Cyngor Gwynedd i hawlio canran o gynnydd yng ngwerth y safle pa bai hawl cynllunio ar gyfer datblygu'r safle yn cael ei dderbyn yn y dyfodol. Cyn bo unrhyw drosglwyddiad yn cael ei ffurfioli, bydd angen i Cyngor Gwynedd rhoi ystyriaeth i'r angen posibl i gadw hawl parcio ynghyd a hawl mynediad gyda cherbyd i safle'r ysgol dros ran o'r maes parcio gan fod y fynedfa bresennol i safle'r Ysgol o ochr y Neuadd Bentref yn gyfyng iawn, a bod amheuaeth ynghylch a'i pherchnogaeth.

Cafodd Cyngor Gwynedd y tir chwarae fel rhodd ond gyda'r ysgol wedi cau mae hawl gan y Cyngor Cymuned i ofyn am drosglwyddiad y tir

Nid ydynt wedi cael ymateb gan yr Eglwys ynglŷn eu bwriad â'r Ysgol

Anfonwyd copi o'r wybodaeth i'r aelodau.

O Chofnodion Gorffennaf 18, 2017 rhoddwyd gwybod i'r Gwasanaeth Eiddo:

Nid yw'r Maes Parcio nesaf at safle'r ysgol yn perthyn i'r Ysgol. Lle cyhoeddus i'r gymuned yw'r Maes Parcio.

Mae y Cyngor Cymuned gyda diddordeb o gael y Cae Chwarae gyferbyn a'r ysgol.

O Chofnodion Medi 19, 2017 rhoddwyd gwybod i'r Gwasanaeth Eiddo:

Mae gan y Cyngor ddiddordeb mewn cymryd perchnogaeth o'r maes parcio sydd nesaf at safle Ysgol Llanfachreth am y swm o £1.

Mae'r Cyngor yn dymuno i Gyngor Gwynedd trosglwyddo y Cae Chwarae gyferbyn a Ysgol Llanfachreth i'r Cyngor.

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

**8. Materion Ariannol**

a. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Elusen Ambiwlans Cymru yn diolch am ein rhodd o £200. Amgáu oedd pecyn o Welsh Brew i ymlacio.

b. Llythyr (22/2/2019) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019 yn diolch am ein rhodd o £100.

c. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhydygorlan yn diolch am ein rhodd o £500.

ch. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Federasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £250.

d. Llythyr (22/2/2019) oddi wrth Llên y Llannau yn diolch am ein rhodd o £50.

dd. Cerdyn(23/2/2-19) oddi wrth R.A.B.I. Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £100.

e. Llythyr (1/3/2019) oddi wrth Llygad Y Dydd yn diolch am ein rhodd o £50.

f. Cerdyn (2/3/2019) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Brithdir yn diolch am ein rhodd o £500.

ff. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 28 Chwefror, 2019: £1,138.38.

g. Balans yn y banc ar 29 , 2019: £4,376.59.

**9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

**10. Unrhyw fater arall**

Yn gywir, H.M. Edwards, Clerc